*Taith Gerdded 17, Llancarfan*

# Cwm y Ceirw




*Ffotograff (H) G.Woosnam* *Y Mans, Llanbydderi*

**Mae'r teithiau hyn yn eich arwain drwy un o ardaloedd mwyaf diddorol a harddaf y Fro sy'n frith o nodweddion hanesyddol. Byddwch hefyd yn ymweld â phedwar pentref sef Llancarfan, Penmarc, Llancatal a Llanbydderi. Mae'r tir yn weddol wastad ar y cyfan gydag ambell i riw fach yn unig. Serch hynny, bydd tri darn o'r daith yn lleidiog ar adegau, ran fynychaf ar dywydd gwlyb yn ystod y gaeaf. Am fod y llwybr cyhoeddus i'r dde i Lancarfan ar hyd cwm Nant Carfan (nant y ceirw), ar agor erbyn hyn, gallwn gynnig taith fyrrach hefyd.**

**Pellter** Prif daith: 6 milltir; taith fyrrach: 3 3/4 milltir.
**Map** Explorer 151.
**Parcio** Ar gychwyn y daith yn Llancarfan: mae maes parcio dros y bont yng nghefn tafarn *The Fox and Hounds*.
**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Bysiau i'r Bont-faen.
**Bwyd a Diod** Tafarndai *The Fox and Hounds* (Llancarfan) a *Six Bells* (Penmarc).
**Toiledau**

**MAN CYCHWYN** Maes parcio wrth Gyfeirnod Grid: ST 052702..




- Man Cychwyn
- Llwybr
- Llwybr bach neu Ddargyfeiriad
- Ffordd gyswllt
- Heol
- Afon neu Nant
- Ardal Goediog
- Ardal Adeiledig
- Adeilad unigol
- Eglwys
- Bwyd a Diod

## Y LLWYBR

Ⓒ Ewch allan o'r maes parcio dros y bont fetlin a cherddwch tuag at yr eglwys ❶. Cerddwch wrth ochr tir yr eglwys a throwch i'r chwith ar ôl cyrraedd yr heol. Pan ddewch at gyffordd fach ymhen ychydig, trowch i'r dde i Heol Moulton. Dilynwch yr heol honno am ryw 400 llathen nes iddi wyro i'r chwith. Ewch yn syth ymlaen yn y fan honno yna cerddwch ar draws pont isel ac i fyny'r rhiw at bentref bach Pen-Onn ❷. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd y lôn goncrit nes i chi gyrraedd arwydd 'Ross Kear House'. Os edrychwch ar y gorwel, gwelwch fod tri gwrthrych yn hawlio'ch sylw, sef simneiau Gorsaf Bŵer Aberddawan a'r gweithiau sment cyfagos a chanolfan fawr cynnal a chadw British Airways ym Maes Awyr Caerdydd.

Ewch heibio i Ross Kear ar y chwith ac i lawr ochr y cwm gan groesi afon Waycock wrth y bont. Gwyrwch i'r chwith wedyn ac ewch i fyny'r rhiw a thrwy'r coed nes i chi gyrraedd cae mawr agored a fu'n safle pentref canoloesol. Croeswch y cae hwnnw ac ewch i'r dde heibio i dwr yr eglwys ar eich ochr chwith. Dewch at gamfa wedyn sy'n arwain at yr heol ym Mhenmarc. O fewn llathenni i chi yn y fan honno y mae'r eglwys, y castell a thafarn *Six Bells* (❸, ❹ & ❺). Croeswch yr heol i heol Croft John ac ar waelod y stryd honno trowch i'r chwith i lôn fach. Gwelwch gamfa ar ben y lôn sy'n arwain i gae hir. Gwyrwch i'r dde a chan gadw ar y tir uchel, cerddwch ymlaen yn fwy neu lai'n gyfochrog â'r polion telegraff, heibio i bostyn cyfeirbwynt nes i chi gyrraedd camfa gerrig sy'n agor ar lôn wledig.

Trowch i'r dde a dilynwch y lôn honno. Byddwch yn mynd heibio i fyngalo ar y dde ac ymhen ychydig yn cyrraedd camfa risiau ar eich ochr chwith.

Ar ôl croesi'r gamfa honno, ewch ar draws y cae o gornel i gornel at y berth islaw arglawdd yr heol. Cerddwch ymlaen gyda'r berth hon at gamfa arall. Ewch o dan yr isffordd ac i fyny i gae ar y dde. Croeswch y cae hwnnw gan wyro ychydig i'r chwith (cadwch simnai'r Orsaf Bŵer o flaen eich llygaid) nes i chi gyrraedd bwlch yn y clawdd terfyn. Gwyrwch i'r chwith eto ac anelwch am yr arglawdd sy'n amgylchynu'r maes awyr. Cerddwch ymlaen rhwng yr arglawdd a'r goleuadau tywys nes i chi gyrraedd man lle mae'r arglawdd yn gwyro'n sydyn i'r chwith. Ewch yn syth ymlaen o'r fan honno at gamfa a gât. Trowch i'r dde wedyn, a dilynwch yr heol nes i chi gyrraedd cyffordd. Trowch i'r dde eto, a gwelwch gamfa arall bron ar unwaith ar eich ochr chwith. Croeswch honno, trowch i'r chwith ar ongl a cherddwch at bostyn cyfeirbwynt ac ymlaen wedyn i lawr y rhiw at gamfa sy'n arwain i goed.

Dilynwch nifer o risiau i fyny llethr ysgafn drwy'r coed nes i chi gyrraedd llwybr lletach. Trowch i'r dde, a dilynwch y llwybr hwnnw drwy'r goedwig hardd at ddarn llydan o borfa wrth ochr yr heol. Gwelwch eich bod bellach wedi cyrraedd mynedfa Castell Ffwl-y-mwn ❻.

Ewch dros y bont i dir y castell, yna trowch oddi ar y rhodfa'n sydyn a cherddwch i lawr y grisiau at y gamfa nesaf. Gwyrwch i'r dde yn y fan honno, a chroeswch ddau gae gan anelu at lwyn o goed bytholwyrdd sydd i'w weld ar y gorwel agos. Ar ôl dringo'r gamfa gerrig rhwng y caeau hyn a chamfa arall ychydig i'r chwith i'r coed bytholwyrdd, dewch at lwybr da a phont dros afon sydd efallai hyn yn cael ei hadnabod fel afon Kenson. Croeswch waelod gwastad y cwm ar letraws o'r dde i'r chwith at rodfa sy'n arwain i ddwy gamfa. Ewch yn fwy neu lai'n syth ymlaen, i fyny rhiw fach serth at gamfa sy'n agor ar lôn rhwng nifer o dai. Mae'r lôn honno'n arwain i brif heol Llancatal a gwelwch dafarn *The Green Dragon Inn* ❼ ar eich ochr dde.

Croeswch yr heol hon gan wyro ryw ychydig i'r chwith er mwyn cyrraedd lôn rhwng tai sy'n arwain i glos fferm Llancatal. Trowch i'r dde a cherddwch ar draws y clos rhwng y sgubor a'r stablau a thrwy dair gât nes i chi gyrraedd cae. Cerddwch ar hyd ymyl dde'r cae hwnnw tuag at goeden sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Trowch i'r chwith yn y fan honno, a chan gerdded yn gyfochrog â'r berth ar y dde, anelwch am y gât sy'n eich wynebu yng nghornel bellaf y cae. Trowch i'r dde'n sydyn wrth y gât honno, a cherddwch drwy ddau gae i gae arall. Cerddwch i'r chwith ar draws y cae hwnnw at bostyn cyfeirbwynt sy'n eich cyfeirio at goedwig. Gwyrwch i'r dde yn y fan honno a chroeswch gamfa i gae arall. Ewch yn eich blaen am ychydig nes i chi gyrraedd camfa arall ar y chwith. Ar ôl dringo honno, cerddwch ar letraws i fyny'r rhiw o'r chwith i'r dde a throwch i'r dde wedyn wrth droad sydyn sy'n eich rhwystro am eiliad rhag gweld y gamfa o'ch blaen. Dringwch y gamfa honno, trowch i'r chwith yn sydyn ac anelwch am gamfa arall sydd wedi'i gwneud o gerrig (anwybyddwch y rhai pren)**. Cerddwch ymlaen i'r un cyfeiriad drwy'r cae nesaf at ddwy gamfa arall. Croeswch y rheiny, trowch i'r dde'n sydyn a cherddwch at gât wrth ochr yr heol. Trowch i'r dde unwaith eto, a cherddwch drwy bentref Llanbydderi heibio i *The Vines* a'r Mans ❽. Ar ôl cyrraedd pen y pentref, trowch i'r chwith wrth gamfa arall. Ewch i'r cae mawr o'ch blaen a dilynwch y llwybr sy'n ei groesi ar letraws i'w gornel dde bellaf. Anelwch am dŷ ar y gorwel.

Ar ôl dringo'r gamfa yng nghornel y cae, croeswch y brif heol a chan wyro fymryn bach i'r dde, cerddwch at gamfa arall. Croeswch honno i gae arall sy'n weddol hir. Cerddwch drwy'r cae hwnnw gan gadw'r clawdd ar eich ochr chwith, nes i chi gyrraedd camfa arall. Cafodd arglawdd ei godi yn y fan honno'n ddiweddar ar yr ochr dde. O'r fan honno, ewch i lawr at y brif heol dros nifer o gamfeydd gan anelu am ochr chwith y goedwig islaw sydd i'w gweld ar y dde. Wedi cyrraedd yr heol, trowch i'r dde a cherddwch drwy Lancarfan ac yn ôl i'r dafarn ❾ a'r maes parcio.

## LLEOEDD O DDIDDORDEB

**❶ EGLWYS CATWG SANT**
Adeilad rhestredig Gradd A sy'n dyddio'n ôl i'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif yn bennaf yw hwn, er bod rhai olion sy'n gynharach na hynny. Mae'n eglwys addurnedig ac unionsyth heb y ffenestri lliw sydd mor gyffredin yn y Fro. Cafodd ei chodi ar hen safle neu wrth ymyl hen safle mynychlog a sefydlwyd yn ystod yr Oesoedd Tywyll gan Gatwg Sant gyda chymorth ceirw'n ôl y traddodiad. Aeth y fynachlog yn ysbail i fôr-ladron o Ddenmarc yn 988.

**❷ PEN-ONN**
Dyma fan geni Edward Williams sy'n fwy adnabyddus i ni fel Iolo Morgannwg - y dyn a greodd Orsedd y Beirdd.

**❸ TAFARN SIX BELLS , PENMARC**
Er bod yr adeilad yn dyddio'n ôl i'r unfed ganrif ar bymtheg, mae wedi'i adnewyddu bron yn gyfan gwbl erbyn hyn.

**❹ EGLWYS Y SANTES FAIR**
Mae gan yr eglwys fwa cangell sy'n dyddio'n ôl i'r drydedd ganrif ar ddeg, coed yw sydd dros 500 mlwydd oed a rhestr offeiriaid a sefydlwyd yma ym 1242.

**❺ CASTELL PENMARC**
Cysylltfur gorllewinol o'r drydedd ganrif ar ddeg (gwelwch y llun) a gweddillion twr yw nodweddion mwyaf trawiadol y castell. Teulu Normanaidd Umbraville a fu'n gyfrifol am ei adeiladu a bu'n gartref i'w ddisgynyddion am genedlaethau.

**❻ CASTELL FFWL-Y-MWN**
Er bod y castell hwn yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, cafodd ei adnewyddu gan Thomas Paty ym 1762, ac mae'n edrych fel adeilad o'r cyfnod hwnnw, ar y cyfan. Mae'r castelliadau plaen ar y tu allan yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â'r dull rococo y tu fewn. Y seneddwr enwog, y Cyrnol Philip Jones a brynodd y castell ym 1656 ac mae'n gartref i'w ddisgynyddion hyd heddiw. Cewch drefnu taith o gwmpas yr adeilad drwy holi.

**❼ TAFARN Y GREEN DRAGON, LLANCATAL**
Adeilad o'r bymthegfed ganrif sydd wedi'i foderneiddio'n helaeth yw hwn. Mae ganddo far a bwyty a bydd yn cynnig gwely a brecwast.

**❽ THE VINES A'R MANS, LLANBYDDERI**
Mae'r adeilad cyntaf (The Vines) yn dyddio'n ôl i ddiwedd yr oesoedd canol a chodwyd y gegin yn y 18fed ganrif. Tŷ to gwellt o'r oesoedd canol yw'r Mans a gafodd ei ailadeiladu tuag 1650.

**❾ TAFARN Y FOX AND HOUNDS, LLANCARFAN**
Adeilad o'r unfed ganrif ar bymtheg a gafodd ei foderneiddio'n helaeth yw hwn. Cafodd ei enwi'n dafarn y flwyddyn gan Echo De Cymru yn 2004. Mae ganddo far, bwyty a bydd yn cynnig gwely a brecwast.

**❿ TROYNG NGHWM CARFAN**
Ochrau terasog sydd i'r cwm hwn ac mae'r rhain i'w gweld orau pan fo'r haul yn isel yn yr awyr. Cafodd y terasau bychain eu ffurfio wrth i'r haenau tenau o galchfaen a chlai yn y graig erydu ar wahanol gyflymdra a defaid y mynydd eu sathru a'u dyfnhau.

## TAITH FYRRACH

Nid yw'r daith hon yn addas i gerddwyr cyffredin ar dywydd gwlyb am fod y llwybr drwy Gwm Carfan ⑩ yn llenwi â llaid. Serch hynny, ar adegau eraill, mae'n ddelfrydol i unrhyw un sy'n chwilio am daith gerdded fer neu'n awyddus i osgoi heolydd gwledig. Gellwch ddilyn y llwybr hwn yn lle'r rhan o'r brif daith sy'n arwain o Lancarfan drwy Ben-onn i Benmarc (gwelwch y map).

## Y LLWYBR


Fel ar y brif daith, cerddwch o'r maes parcio dros y bont a heibio i'r eglwys i'r heol. Trowch i'r dde yn y fan honno ac i'r chwith, yna dilynwch yr heol sy'n arwain i fyny'r rhiw ac allan o'r pentref. Ychydig y tu hwnt i'r tai diwethaf, gwelwch gamfa ar ochr chwith yr heol. Ewch drosti a cherddwch i lawr y cwm sy'n ymagor o'ch blaen. Mae'r ffordd yn hawdd ei dilyn. Chwiliwch am y camfeydd sydd wedi'u nodi â chyfeirbwynt a chadwch i'r dde i Afon Carfan sy'n ymdroelli'n araf tua'r môr ar draws gwaelod gwastad y cwm. Mae pum camfa i gyd ond y ddwy gyntaf yw'r unig rai y mae'n rhaid i chi eu dringo. Ar ôl cyrraedd y bumed gamfa, gwelwch heol fach wledig. Trowch i'r dde yn y fan honno a cherddwch i fyny'r rhiw.



Cysylltfur Gorllewinol Castell Penmarc

Ffotograff (H) G.Woosnam

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.

(Os ydych yn bwriadu dilyn y daith gerdded lawn, cerddwch ar draws y bont isel, trowch i'r chwith eto a dringwch y rhiw i bentref Penmarc a gellwch ymuno â'r llwybr hir yn Croft John).

Os ydych am ddilyn y daith fer, ewch yn eich blaen i fyny'r rhiw. Anwybyddwch yr heol ar y chwith a chyn bo hir, byddwch yn cyrraedd Cliff House Farm ar yr ochr dde. Dringwch y gamfa gyferbyn, wrth ochr y tŷ, a chan wyro ryw fymryn bach i'r dde, ewch ymlaen at y gamfa wrth glawdd terfyn y cae. Cerddwch ymlaen gan wyro ychydig i'r dde i'r tŷ, a gwelwch dair camfa arall yn amlwg o'ch blaen sy'n aros i chi un ai eu croesi neu gerdded heibio iddynt. Ewch drwy'r bwlch rhwng y tŷ y soniwyd amdano uchod a'r ysgubor ar eich ochr dde, yna cerddwch ar draws y clos at yr heol.

Trowch i'r dde wrth yr heol ac i'r chwith yn fuan wedyn a byddwch yn dod at Middlecross Farm. Trowch oddi ar y llwybr ar ôl cerdded ychydig ymhellach na'r tŷ fferm. Ewch drwy glwyd haearn ac ymlaen i'r un cyfeiriad at gamfa wrth glawdd terfyn y cae nesaf. Ewch ymhellach, unwaith eto i'r un cyfeiriad at gamfa garreg yng nghornel bellaf y cae. Anwybyddwch y camfeydd pren yn y cae hwnnw. Ar ôl cyrraedd y gamfa garreg, byddwch wedi ailymuno â'r daith gerdded hir. Er mwyn parhau, trowch unwaith eto at y cyfarwyddiadau ar gyfer y daith honno lle gwelwch **



Eglwys Llancarfan

Ffotograff (H) G.Woosnam

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- Golygfeydd o Gwm Carfan
- Eglwys Catwg Sant
- Eglwys y Santes Fair
- Castell Penmarc
- Castell Ffwl-y-mwn
- Dewis da o dafarndai



Cwm Carfan

Ffotograff (H) G.Woosnam

## DILYNWCH Y GÔD CEFN GWLAD

- Byddwch yn ddiogel, cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Ewch â'ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

enfys

Environment Wales Amgylchedd Cymru

cerdded llwybr iechyd walking the way to health

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 17, Llancarfan*

# Cwm y Ceirw

Pellter: 6 milltir (taith fer $3^{1}/_{2}$ milltir)




'Ceiliog' y Gwynt

Ffotograff (H) Cyngor Bro Morgannwg

make tracks with Valeways